BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD IONAWR 20, 2026

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Rhydymain
Nos Fawrth, Ionawr 20, 2026 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanfachreth.cymru

**Presennol** Gerallt Griffith (Cadeirydd), Rhun Prys Jones, Emlyn Roberts Aaron Roberts, Robin Jones, Meurig Ashton, Karen Goswell a Geraint Evans. Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd.**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau:** Delyth Lloyd Griffiths, Peredur Jenkins a Llion Williams.

**3. Datgan diddordeb.**

Eitem 6.b. Roedd Karen Goeswell yn datgan diddordeb ynglŷn â gwyriad i lwybr.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd 18, 2025**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Tachwedd 18, 2025**

Eitem 5. Eitem 5. Eitem 5. Eitem 6.b.

Rhoddwyd gwybod i Zurich Municipal, ein cwmni yswiriant, i gynnwys y meinciau a'r hysbysfyrddau yn ein polisi fel roedd y Grant ei angen. Maent wedi eu cynnwys yn Asedion y Cyngor.

Llythyr (26/11/2025) oddi wrth Zurich Municipal yn rhoi gwybod mae'r meinciau a'r hysbysfyrddau wedi cael eu cynnwys yn y polisi yn ddi-gost ond bydd yr yswiriant yn codi tua £30 pan fydd yn cael ei adnewyddu.

Cytunodd (26/11/2025) Llion i dderbyn y sticeri Grant oddi wrth Cyngor Gwynedd.

Derbyniwyd (27/11/2025) oddi wrth Robin llun yn dangos y fainc yn Rhydymain wedi ei osod i'r ddaear.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (28/11/2025) oddi wrth Swyddog Prosiect Adfywio (Gwynedd Ni) yn rhoi cyfle i'r Cyngor i gymryd rhan mewn fideo hyrwyddo ar gyfer y gronfa, a fydd yn cael ei ffilmio ym mis Ionawr. Maent angen gwybod pwy sydd ar gael ar gyfer y ffilmio a cyn 10/12/2025.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Gyda dim ymateb gan yr aelodau am wneud fideo anfonwyd lluniau yn dangos yr hysbysfyrddau a'r meinciau.

Llythyr (9/12/2025) oddi wrth Swyddog Prosiect Adfywio (Gwynedd Ni) yn holi os rydym wedi derbyn anfoneb am osod y meinciau

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Nid oes anfoneb i'r fainc yn Rhydymain.

Derbyniwyd anfoneb gan Pwyllgor Neuadd Llanfachreth am £177.18 (nwyddau £117.18, llafur £60.00) at y fainc yn Llanfachreth. Talwyd y swm ar 16/12/2025. Anfonwyd yr anfoneb ymlaen i'r Swyddog ar 15/12/2025 a chyfrif y banc yn dangos y swm ar 29/12/2025. Derbyniwyd yr ad-daliad (7/1/2026) gan Cyngor Gwynedd.

Llythyr (30/12/2025) oddi wrth Swyddog Prosiect Adfywio (Gwynedd Ni) gyda Ffurflen Cwblhau Prosiect sydd angen ei gwblhau. Mae £551.36 yn weddill i ni ei wario ac mi allent drefnu ein bod yn cael estyniad i wneud gwaith ychwanegol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Derbyniwyd llythyr (31/12/2025) oddi wrth Gerallt yn awgrymu rhoi cais am bin halen wrth Gernant. Rhoddwyd gwybod iddo a'r aelodau mae'r grant tuag hysbysfyrddau a meinciau yn unig.

Mae'r aelodau yn ddiolchgar i bawb, yn enwedig Robin a Rhun, am y gwaith o osod y meinciau a'r hysbysfyrddau.

Eitem 11. 2. Lythyr ateb (11/12/2025), trwy law Delyth, oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd ynglŷn cael bin halen yn ardal Gernant Rhiw Wern Gawr. Maent yn rhoi gwybod mae gan y cyngor cymuned yr opsiwn i ail leoli bin sydd yn y gymuned, yn ddigost, neu ariannu bin newydd ar gost o £362.67.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Anfonwyd llythyr (31/12/2025) i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn gofyn am bin halen a'i osod wrth Gernant.

Wedi cael neges gan Emlyn (6/1/2026) anfonwyd llythyr i Priffyrdd yn gofyn eto am bin halen yn y lleoliad gyda nodyn yn dweud gwrthododd gritter i fynd ar hyd y ffordd. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau.

Anfonodd Delyth lythyr (7/1/2026) i Priffyrdd yn rhoi gwybod iddynt roi bin halen yn y lleoliad.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (8/1/2026) derbyniodd Delyth oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod mae trefniadau wedi cael ei wneud i osod bin halen rhwng Esgair Gwr a Gernant.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (8/1/2026) oddi wrth Delyth i'r aelodau yn rhoi gwybod mae bin halen wedi cael ei roi yn y lleoliad.

Eitem 10. b. Llythyr ateb (19/12/2025) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod maent am ail -osod y draen wrth Hafod yr Haul yn y flwyddyn newydd.

Eitem 6. ch. Llythyr (13/1/2026) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn cael ei gynnal ar nos Fercher, 21/1/2026 rhwng 6.00 ac 8.00yh. Maent angen un cynghorydd i gynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod a gadael gwybod Un Llais Cymru yr enw. Amgáu mae Agenda, Cyfansoddiad a Chynigion ar gyfer y cyfarfod.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau

Derbyniwyd (16/1/2026) nodyn oddi wrth Gerallt yn rhoi gwybod ei fod am ymuno â'r cyfarfod. Rhoddwyd gwybod (16/1/2026) i Un Llais Cymru.

Eitem 10. h. Oes gan rywun ddiddordeb llenwi'r swydd Clerc?

Mae'r aelodau yn gwneud ymdrech i gael Clerc.

**6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (27/11/2025) oddi wrth Ysbyty Hywel Dda yn rhoi gwybod mae ymgynghoriad ar gyfer Gwasanaethau Clinigol wedi cael ei gynnal a nawr mae angen arolygu'r adroddiad drafft. Amgáu mae linc i'r adroddiad.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (1/12/2025) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn cynnwys dogfen 'Gorchymyn Cyngor Gwynedd i Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 38'. Bwriedir gwyro'r llwybr oddi wrth ddalgylch tŷ ac iddo redeg ar hyd ochr cae cyfagos ym 'Ystum-gwadnaeth', Llanfachreth. Amgáu mae map yn dangos y llwybr a'r gwyriad arfaethedig. Amgáu hefyd mae rhybudd statudol pan ellir derbyn gwrthwynebiadau erbyn 9fed o Ionawr, 2026.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (16/1/2026) oddi wrth y Gwasanaeth Cyfreithiol gyda dogfen yn rhoi gwybod mae'r Gorchymyn yn ddiwrthwynebiad.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (4/12/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys rhestr o gyrsiau hyfforddiant yn Rhagfyr – Mawrth 2026.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

ch. Llythyr (17/12/2025) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae gwaith torri 230m a chodi dau arwyddbost ar Lwybr 47 wrth Moel Cors y Garnedd,

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

d. Llythyr (18/12/2025) oddi wrth Ystadau Cymru yn rhoi gwybodaeth ar reoli gwefru Cerbydau Trydan a diogelwch Batris Lithiwm.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

dd. Llythyr (19/12/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd ar 14/1/2026 am 7.00yh ac ar Zoom. Amgáu mae Agenda a Chofnodion cyfarfod 21/10/2025.

e. Llythyr (2/1/2026) oddi wrth Gerallt i'r aelodau yn rhoi gwybod bydd Neuadd Llanfachreth yn dathlu ailagor y neuadd wedi gwaith adnewyddu'r adeilad cael ei gwblhau. Bydd yr achlysur yn cael ei gynnal ar ddydd Sadwrn, 10 Ionawr, 2026, am 1.30yp.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

f. Llythyr (3/1/2026) oddi wrth Caroline Watkins yn rhoi gwybod mae angen clirio eira sydd ar ffordd i Cors y Garnedd, Bwlch Goriwared, Llanfachreth, LL40 2EH. Nid oes biniau halen yn yr ardal.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

Llythyr (4/1/2026) oddi wrth Caroline Watkins yn gofyn am bin halen a'i roi ar groesffordd cyn dod i Cors y Garnedd. Rhoddwyd gwybod iddi bydd y mater yn cael ei godi yn ein cyfarfod.

Llythyr (8/1/2026) oddi wrth Caroline Watkins yn rhoi gwybod mae'r gritter wedi bod yn yr ardal ar 8/1/2026.

ff. Llythyr (9/1/2026) oddi wrth Claire Rowlands, 4 Glanwnion Row, Rhydymain yn rhoi rhesymau am fin halen a'i leoli gyferbyn â Station House i wneud hi'n gyfleus i raeanu'r rhiw i'r A494.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau am eu sylwadau.

Derbyniwyd llythyr manwl (9/1/2025) oddi wrth Emlyn yn rhoi gwybod mae cerbydau yn cael anhawster ar y rhiw sy'n ymuno a'r A494 yn saff yn ystod eira ar y ffordd. Gofynnodd i Delyth gwneud ymoliadau â Cyngor Gwynedd neu Llywodraeth Cymru i gael gwybod a fyddant yn gyfrifol os bydd damwain cerbyd yn y lleoliad.

<u>Penderfynwyd</u> rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd i ddim gadael trwch o eiria ar y gyffordd Drwsynant pan mae'r eira yn cael ei glirio gan aradr eira ar yr A494.

g. Llythyr (5/1/2026) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys neges Blwyddyn Newydd oddi wrth y Prif Weithredwr yn esbonio'r newidiadau y bwriadwyd eu gwneud o ddigwyddiadau blynyddol: cyfarfod cyffredinol blynyddol 2026, cynhadledd genedlaethol a seremoni wobrau 2026, cynhadledd arfer arloesol flynyddol 2026, digwyddiadau ar y cyd gyda phartneriaid allweddol, sesiynau arddangos yn Y Senedd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

h. Llythyr (6/1/2026) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae Palas Buckingham am i ni enwebu unigolyn i Garddwest Y Brenin bydd yn cael ei gynnal yno ar Fai 6, 8 a 12 / 2026. Maent angen gwybod y dyddiad yr enw cyn 13 /2/2026.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

i. Llythyr (6/1/2026) oddi wrth Cydlynydd Prosiect Perthyn gyda manylion grant maent yn ei roi i grwpiau cymunedol yng Nghymru.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

j. Llythyr (8/1/2026) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynwys dogfennau: Hawlfraint, Legal Advice, Cymryd rhan mewn Gweminarau.

l. Llythyr (9/1/2026) oddi wrth Mr Vivian Jones yn cwyno am faw ci sydd ym mynwent Llanfachreth ac yn credu bod y ci yn dod o eiddo lleol. Mae o angen i'r Cyngor ymchwilio'r mater ac i'r perchenog y ci cael dirwy.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau am eu sylwadau.

Anfonwyd llythyr (11/1/2026) ateb iddo yn rhoi gwybod nid yw'r Cyngor yn gyfrifol am y fynwent. Awgrymwyd iddo gysylltu â Pharchedig Dr C.S.B. Roberts.

m. Llythyr (19/1/2026) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys rhestr o gyrsiau hyfforddiant yn Ionawr – Mawrth 2026.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

n. Llythyr (20/1/2026) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys Cofnodion Pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhaliwyd ar Ionawr 14, 2026.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

o. Llythyr (20/1/2026) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith:

1. clirio coed yn cael ei wneud yn Pwll y Gele ar lwybr 62.
2. torri coed 270m o dyfiant, codi 4 postyn cyfeirbwyntio a ffosio ar Lwybr Ceffyl 8 & 9 yn Abergeirw.
3. codi 2 giat a chodi 3 postyn cyfeirbwyntio ar Lwybr Ceffyl 12 & 13 yn Tyddyn Mawr.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

p. Llythyr (20/1/2026) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod ffordd o groesffordd Tyddyn Arthur i'r dwyrain o Fuchesydd, Rhydymain ar gau ar Chwefror 11, 2026 am ddau ddiwrnod.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

**7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

**8. Materion Ariannol**

a. Llythyr (5/12/2025) oddi wrth Urdd Gobaith Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

b. Anfonwyd llythyr (22/11/2025) i Cyngor Gwynedd am ad-daliad tuag at glirio llwybrau yn y gymuned. Anfonwyd llythyr (2/1/2026) yn atgoffa nhw am yr ad-daliad..

c. Llythyr (9/12/2025) oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd . Maent angen gwybod ein praesept am 2026 / 2027 ac angen gwybod erbyn dydd Gwener 30/1/2026.

Anfonwyd manylion darparwyd gan y Clerc i'r aelodau. Gyda phrisiau wedi codi awgrymwyd i'r Praesept fod yn £16,000. Mae'r Praesept presennol £12,000 wedi bod ers 2021 – 2022.

Penderfynwyd codi'r praesept i £14,000.00

Penderfynwyd codi'r praesept yn flynyddol i 5% neu chwifiant yn dibynnu pa un sy'n uchel.

ch. Llythyr (17/12/2025) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2026-27. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 o dan adran 137 (1) a (3) £11.60 fesul etholwr er budd yr ardal.

Bydd yr uchafswm yn £11.60 x 603 = £6,994.80.

d. Anfonodd y Clerc lythyr (10/1/2025) i'r aelodau yn rhoi gwybod mae rhaid i ni fod yn ofalus ar ein taliadau o hyn ymlaen at ddiwedd mis Mawrth oherwydd y costau sydd wedi bod y flwyddyn hon. Mae neges wedi ei roi i Gyngor Gwynedd am ad-daliad tuag at glirio llwybrau ac i HMRC am daliad TAW. Bydd pethau yn ychydig yn well wedi i ni gael y taliadau hyn. Bydd rhaid codi ein praesept; mi anfonaf y wybodaeth i chi yn nes at ein cyfarfod.

dd. Llythyr (7/1/2026) oddi wrth Llên y Llannau. Maent angen cymorth ariannol. Amgáu mae eu mantolen.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

e. Llythyr (15/1/2026) oddi wrth Marie Curie. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

f. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/11/2025: £161.72.
Balans yn y banc ar 29/11/2025: £10,680.04.

g. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/12/2025: £161.91.
Balans yn y banc ar 29/12/2025: £7,890.98.

**9. Archwilio**

**10. Materion yr Aelodau**

a. Llythyr (17/12/2025) oddi wrth Gerallt yn rhoi gwybod mae caead bin halen rhif BH2 sydd wrth Capel y Ffrwd, Llanfachreth wedi torri.

Rhoddwyd gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd i roi sylw i'r mater.

b. Llythyr (17/12/2025) oddi wrth Rhun yn rhoi gwybod mae coeden ddim yn saff wrth Capel Hermon. Mae'r goeden yn gorffwys ar lein BT ac mae traffic yn gwrthod ei phasio.

Rhoddwyd gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd i roi sylw i'r mater.
Cafodd y goeden ei chlirio gan Priffyrdd (17/12/2025).

**11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

a. Llythyr (13/1/2026) oddi wrth Cerys, Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae Stadau yn gwneud trefniadau i drwsio'r gât i'r cae wrth ymyl Ysgol Machreth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (15/1/2026) oddi wrth Plaid Cymru Gwynedd yn cynwys datganiad i'r wasg ynglŷn 'Hen bryd buddsoddi yn ffermydd bychain Gwynedd'.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llofnod: Dyddiad: